

**Gweithiwr Cefnogi Iechyd Meddwl**

**Tîm Cymorth Dwys**

G03 – £27,254.00 - £28,598.00

**<u>YMGEISWYR GWRYW YN UNIG OS GWELWCH YN DDA</u>**

Pan fyddwch yn Weithiwr Cefnogi Iechyd Meddwl gallwch wneud gwahaniaeth gwirioneddol.

Fel rhan o’n tîm, byddwch yn darparu cefnogaeth hyblyg i bobl gyda phroblemau iechyd meddwl, yn unol ag egwyddorion “adfer” a “beth sy’n bwysig” gan alluogi bobl i arwain bywydau cyflawn ac ystyrlon.

Byddwch yn gweithio mewn partneriaeth gydag unigolion i’w helpu i gyflawni eu hamcanion personol. Byddwch yn darparu cefnogaeth ymarferol ac emosiynol gyda’r nod o hybu annibyniaeth, hyder ac ansawdd bywyd.

Rydym yn chwilio am gydweithwyr newydd sy’n deall anghenion pobl gyda phroblemau iechyd meddwl a’r rhwystrau maent yn eu hwynebu. Byddwch yn cefnogi pobl ddiamddiffyn, eu cynorthwyo i fyw mor annibynnol â phosibl. Dylai fod gennych agwedd anfeirniadol a’r gallu i drin unigolion gydag urddas a pharch.

Lefel 3 ar y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau neu gymhwyster Gofal Cymdeithasol arall yn ddymunol. Fodd bynnag, os ydych yn fodlon ymgymryd â hyfforddiant a gweithio tuag at Gymhwyster Gofal Cymdeithasol yna dylech wneud cais.

Rydym wedi ymrwymo i gyfleoedd cyfartal a hybu cynhwysiant ac rydym eisiau herio stigma o amgylch iechyd meddwl. Rydym yn cynnig trefniadau gweithio’n hyblyg i hwyluso cydbwysedd bywyd a gwaith, yn ogystal â chynllun pensiwn, hawl i wyliau blynyddol hael a buddion llywodraeth leol eraill.

Os ydy hyn yn ymddangos fel rhywbeth sydd gennych chi ddiddordeb ynddo yna byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi. Peidiwch ag oedi, ymgeisiwch nawr neu cysylltwch â Amy or Amanda 01352 730822 / 07717 483519.